Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 26ain o Fedi 2018 yn Ystafell Bwyllgor Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Edward Thomas, y Dirprwy Faer y Cyng. Owen James, y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Dawn Wallace.

Doedd dim materion yn ymwneud â'r Heddlu.

Cof 158 / Medi / 18 Datganiadau o Fuddiant.

Cof 159 / Medi / 18 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw. Adroddodd y bydd yr Eglwys yng Nghymru yn gwneud arolwg o Eglwys Llandyfeisant, sydd mewn cyflwr gwael.
Bydd Gwalia yn mynd ati i wneud llawer iawn o waith adnewyddu cartrefi ym Maes y Farchnad.
Mae CSG yn ystyried cynnig parcio am ddim mewn trefi marchnad, am 2 awr y dydd.
Mae nifer o gartrefi CSG ym Maes Elfryn a Heol y Garreg Las wedi dod yn wag, ac maent ar gael i bobl ymgeisio amdanynt.
Mae cyfarfod gyda Brian Mugford CSG, Balchder yn eich Ardal, wedi cael ei drefnu ar yr 2il o Hydref, i sefydlu grŵp Cadw Llandeilo'n Daclus.
Roedd y Cyng. Thomas wedi gofyn i Swyddogion Gorfodi CSG i batrolio'r Dref, yn enwedig y parciau, oherwydd cynnydd mewn baw cŵn nad sy'n cael ei lanhau.

Cof 160 / Medi / 18 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, ar nos Fercher y 25ain o Orffennaf 2018, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir, wedi ychwanegu enw'r Cyng. Lesley Prosser at y rheiny a oedd yn bresennol.
Cynigwyd gan y Cyng. Lesley Prosser ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol, a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, ar nos Fercher y 12fed o Fedi 2018, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Owen James ac eiliwyd gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, ar nos Fercher y 12fed o Fedi 2018, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn gyda'r diwygiadau canlynol:-

Newid dyddiad y cyfarfod o fis Gorffennaf i fis Medi.
Cofnod 153A oedd Balansau'r Cyfrifon a Chofnod 153B oedd Materion Ariannol Eraill.
Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cof 161 / Medi / 18 Doedd dim materion yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol

Cof 162 / Medi /18 Gohebiaeth yn galw am ymateb

i) Hazel Evans, CSG, gwybodaeth yn ymwneud â'r camau ymgynghori nesaf o ran Cynllun Cludiant Llandeilo. Nodwyd.
ii) M. Watmore, ynghylch atborth HAGS. Byddai'r Is-grŵp Trosglwyddo Asedau yn paratoi ymateb.
iii) Strategaeth Toiledau Lleol CSG. Rhoddwyd caniatâd i bawb i gwblhau arolwg ar-lein.
iv) Cwrs Rheoli Gwybodaeth Un Llais Cymru.
Cytunwyd byddai'r Cyng. Owen James a'r Cyng. Christoph Fischer yn cynrychioli'r Cyngor ar y Cwrs.
v) Roedd y Cyng. Lesley Prosser wedi ysgrifennu at y Cyngor, i argymell bod Cydlynydd y Gymdeithas Dementia yn cael ei wahodd i annerch y Cyngor. Cynigodd y Cyng. Owen James bod y Cydlynydd yn cael ei wahodd i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Tachwedd, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser.
vi) Graham Tuckwood, RBL, yn dweud byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar yr 8fed o Hydref, yn Neuadd Sant Ioan am 2.00yh. Nodwyd.

Cof 163 / Medi / 18 Gohebiaeth er gwybodaeth

i) Trosglwyddo llinell ffôn BT.
Dywedodd y Clerc byddai'r llinell ffôn yn cael ei symud i Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed ar y 4ydd o Hydref. Roedd hyn er mwyn diogelu'r rhif pan fydd y Cyngor yn dychwelyd i Neuadd y Sir. Byddai hefyd yn rhoi mynediad i'r Cyngor i fand llydan. Byddai unrhyw alwadau'n cael eu dargyfeirio i ffôn symudol y Cyngor.
ii) Adroddiad blynyddol Heddlu Dyfed Powys. Nodwyd.
iii) CSG, mewn perthynas â chais am ddata ar y Côd Ymddygiad. Byddai'r Clerc yn ymateb.
iv) Cyfarfod ardal Un Llais Cymru, i'w gynnal ar yr 2il o Hydref. Y Cyng. Owen James oedd cynrychiolydd y Cyngor.
v) Adroddiad Hywel Dda ar ymatebion i'r arolwg. Nodwyd.
vi) Jonathan Edwards AS, ynglŷn ag ymateb Plaid Cymru i gynigion Hywel Dda. Nodwyd.
vii) Rhybudd y Post Brenhinol am sgamiau drwy'r post. Nodwyd.

Cof 164 / Medi / 18 Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w talu.

	Net	TAW	Cyfanswm
Carreg Law (ffi'r cyfreithiwr)	£ 1,506.00	£ 300.00	£ 1,806.00*
W.Kingsbury(DD717) (batris) vis	£ 13.44	£ 2.69	£ 16.13
Tesco (DD717) (cetris inc) vis	£ 18.00		£ 18.00
LBS Builders (DDPLQ 713) vis	£ 18.68	£ 3.73	£ 22.41
LBS Builders(DDPLQ714) vis	£ 150.04	£ 30.02	£ 180.06

LBS Builders (DDPLQ) vis	£	29.00	£	5.80	£	34.80
Siop Charlies (DD PLQ) vis	£	24.55	£	4.90	£	29.45
Orchardweb (trwydded gwe letya)	£	135.00			£	135.00*
One Stop Catering (bagiau sbwriel)	£	23.74	£	4.75	£	28.49*

dd - debyd uniongyrchol # - siec * bacs. Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 165 / Medi /18 Materion Ariannol Eraill

Diffibrilwyr ar gyfer Tref Llandeilo. Cynigodd y Cyng. Geraint Price bod un diffibriliwr yn cael ei osod ar wal y Londrét ar Heol Newydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid. Byddai'r ail ddiffibriliwr yn cael ei osod ym mynedfa fwaog y prif faes parcio.

Cof 166 / Medi / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol

Ymdriniwyd ag adroddiad Mr Davies pan drafodwyd yr Adroddiad Trosglwyddo Asedau.

Cof 167 / Medi / 18 Y Diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau

Cyflwynodd y Cyng. Edward Thomas yr adroddiad hwn. Rhoddodd y Swyddog Technegol adroddiad ar y gwaith canlynol a drefnwyd i'w wneud ym Mharc Le Conquet.

i) I wneud gwaith atgyweirio dros dro ar sied storio'r clwb bowls, am bris amcanol o £395. Cytunwyd ar hyn. Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James.

iii) Cost defnyddiau i atgyweirio offer Sutcliffe oedd £211.80. Cynigodd y Cyng. Eifion Davies bod y defnyddiau'n cael eu prynu, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James.

iv) Cost gosod rheolydd gwresogi ar system y clwb Bowls oedd £ 363.70. Cynigodd y Cyng. Eifion Davies bod hyn yn cael ei wneud, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser.

v) Cost uwchraddio'r golau tu allan i'r clwb bowls oedd £123. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod hyn yn cael ei wneud, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser.

vi) Cynigodd y Cyng. Gordon Kilby bod dwy ffens yn cael eu codi tu cefn i'r cwrt tennis, am bris o £440. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas.

vii) Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod gweddill anfoneb HAGS yn cael ei dalu, ond bod £100 yn cael ei gadw yn ôl i ad-dalu costau symud rhwystrau'r cwmni i'r Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Geraint Price. Roedd pawb o blaid.

viii) Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod yr amcan bris o £143.94 gan Ganolfan Arddio Works, am rododendronau i'w plannu ym Mharc Penlan, yn cael ei dderbyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

vix) Cynigodd y Cyng. Eifion Davies bod Pwyllgor Rheoli Parciau yn cael ei sefydlu, i fod yn gyfrifol am Barc Penlan a Pharc Le Conquet, unwaith byddai'r gwaith o Drosglwyddo Asedau'r Parciau wedi cael ei gwblhau. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Byddai'r is-grŵp rheoli parciau'n cael ei ailenwi'n Is-grŵp Cyswllt Parciau, er mwyn parhau â'r trafodaethau gyda defnyddwyr y parciau.

x) Byddai cyfarfod nesaf yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau'n cael ei gynnal ar yr 16eg o Hydref.

Cof 168 / Medi / 18 Adroddiad ar Neuadd y Sir

Adroddodd y Cyng. Edward Thomas bod Neuadd y Sir yn wag erbyn hyn, a bod yr allweddi wedi cael eu rhoddi i Fenter Bro Dinefwr, i gychwyn ar y gwaith adnewyddu. Roedd wedi gofyn am gymorth gan y Cynghorwyr i symud y ffeiliau blwch sy'n weddill i storfa YAD. Dywedodd y Swyddog Cyllid byddai'r Cyngor yn parhau i yswirio'r adeilad, a byddai MBD yn ad-dalu'r Cyngor. Byddai rhai newidiadau'n cael eu gwneud i'r polisi.

Cof 169 / Medi /18 Doedd dim materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd

Cof 170 / Medi /18 I ystyried y Polisi GDPR drafft

Cynigodd y Cyng. Gordon Kilby bod y polisi a baratowyd gan y Cyng. Christoph Fischer a'r Cyng. Owen James yn cael ei fabwysiadu, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 171 / Medi / 18 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Cyng. Edward Thomas adroddiad ar y digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor.

1. 6ed o Awst. Mynychwyd cystadleuaeth trefnu blodau, a drefnwyd gan Lynwen o Cofio Bach.
2. 11eg o Awst. Mynychwyd Gwasanaeth Coffa Brwydr Bosworth yn Eglwys San Pedr.
3. 14eg o Awst. Mynychwyd angladd Ruby Lewis, gwraig y Cyn-faer Alan Lewis.
4. 18fed o Awst. Mynychwyd Sioe Llandeilo.
5. 23ain – 28ain o Awst. Aeth Cymdeithas Trefeillio Llandeilo ar ymweliad i Le Conquet.
6. 7fed o Fedi. Cyflwynwyd medalau i enillwyr Ras 5k y Cottage Inn, er budd elusen ganser Macmillan.

Cof 172 / Medi / 18 Adroddiadau Eraill

i) Adroddiad yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig

Agorodd y Maer y tendrau i godi'r goleuadau Nadolig ym mhresenoldeb y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Gordon Kilby a'r Cyng. Geraint Price. Roedd y tendrau fel a ganlyn:-

Davies Electrics	£ 5,100 ac eithrio taw
Charles B Sams	£ 5,375 ac eithrio taw
Rhys Williams	heb gyflwyno tendr.

Cytunwyd rhoddi'r contract i Davies Electrics.

Dywedodd y Swyddog Technegol mai dim ond 30 o fotiffau oedd ar gael, gan gynnwys croes yr eglwys, y goleuadau Nadolig Llawen a'r Goeden Nadolig. Byddai'r goleuadau'n cael eu gosod ar Stryd Rhosmaen, Stryd y Farchnad a Stryd Caerfyrddin.

Codwyd y gyllideb o'r gyllideb wreiddiol o £5,500 i £6,500, er mwyn sicrhau byddai'r Dref yn parhau i gael ei haddurno ar gyfer y tymor. Mynegodd y Cynghorwyr bryder am y cynnydd yng nghost y digwyddiad.

ii) Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt

Roedd y Swyddog Technegol wedi cyflwyno adroddiad manwl ar yr holl drefniadau a oedd yn rhaid eu cwblhau, er mwyn cynnal y digwyddiad yn ddiogel. Derbyniwyd caniatâd gan Glwb Rygbi Llandeilo i gynnal y digwyddiad. Byddai'r Clwb yn cyflenwi stiwardiaid. Byddai'r Cynghorwyr yn helpu yn y fynedfa, a gyda pharcio. Byddai'r Cyng. Geraint Price yn trefnu i daflenni gael eu paratoi.

Pris mynediad fyddai £4 i Oedolion a £2 i Blant.

Cof 173 / Medi / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45yh.